Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

MEDDIANNU AMGUEDDFEYDD TAKING OVER MUSEUMS

Case Study / Astudiaeth Achos

Anglesey Archives / Archifau Ynys Môn

WHY TAKE PART ?

The Archives had never previously taken part but the Learning Officer also works at Oriel Ynys Môn which had participated last year. The Archivist had observed that event and thought that it had huge potential to advertise the Archives' existence.

WHO TOOK PART ?

Eight children from Years 5 and 6 (ages 9-11). It is a restricted space so a small group was preferable. The Archives had worked with this school before but not these children.

WHAT DID THEY DO ?

The children worked as Search Room Assistants on the front desk. They also worked as conservators and archivists, cataloguing the collection and digitising documents.

HOW DID THEY SPEND THEIR TIME ON THE DAY?

The school wanted the event to be structured within a timetable. The team began planning in September and the children visited briefly a week beforehand to familiarise themselves with as many roles as possible and to build up self-confidence. On Taking Over Museums Day students acted as:

Stewards – greeting visitors with set phrases, answering the telephone, responding to emails and taking bookings
Archivists – retrieving documents from storage, transporting them on trolleys and loading computer records from CDs
Digitisers – typing up vehicle registration numbers and school log books and transforming them into a digital database
Curators – handling objects with special gloves and scanning cards to create a Christmas display

BETH OEDD EICH RHESWM DROS GYMRYD RHAN?

Doedd yr Archifau erioed wedi cymryd rhan o'r blaen ond mae'r Swyddog Dysgu'n gweithio yn Oriel Ynys Môn hefyd ac roedd yr Oriel wedi cymryd rhan y llynedd. Roedd yr Archifydd wedi gwylio ar y diwrnod ac wedi teimlo bod potensial enfawr yno i dynnu sylw pobl at fodolaeth yr Archifau.

PWY GYMERODD RAN?

8 o blant o Flynyddoedd 5 a 6 (9-11 oed). Mae'n lle cyfyngedig felly roedd grŵp bychan yn well na grŵp mawr. Roedd yr Archifau wedi gweithio gyda'r ysgol hon o'r blaen ond nid gyda'r plant yma.

BETH WNAETHON NHW?

Gweithiodd y plant fel Cynorthwywyr Ystafell Ymchwil ar y ddesg flaen. Roeddent hefyd yn gweithio fel ceidwaid ac archifwyr, yn cadw rhestr o eitemau'r casgliad ac yn digido dogfennau.

SUT DREULIODD PAWB EU HAMSER AR Y DIWRNOD?

Roedd yr Ysgol eisiau i'r digwyddiad gael strwythur o fewn amserlen. Dechreuodd y tîm gynllunio ym mis Medi a daeth y plant ar ymweliad byr wythnos ynghynt i ddod yn gyfarwydd â chymaint o rolau ag y gallent ac i fagu hunan-hyder. Ar y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd roedd y myfyrwyr yn gweithio fel:

Stiwardiaid – yn cyfarch ymwelwyr yn yr ystafell Chwilio gydag ymadroddion a ddysgwyd iddynt, yn ateb y ffôn, yn ymateb i negeseuon ar yr e-bost ac yn ymdrin ag archebion
Archifwyr – yn nôl dogfennau o'r storfa, yn eu cludo ar droli ac yn llwytho cofnodion cyfrifiadur o CD
Digidyddion – yn teipio rhifau cofrestru cerbydau a llyfrau cofnodi ysgolion ac yn eu troi'n gronfa ddata ddigidol
Curaduron – yn trin gwrthrychau gyda menig arbennig ac yn sganio cardiau i greu arddangosfa Nadolig

Designers – selecting and creating a Document of the Month for the website

WHAT HAPPENED NEXT?

The children said that they really enjoyed being in the back of the Archives (which the Archivist had not expected) but were most excited about being allowed to answer the telephone. The Archivist collected verbal feedback from the children who left on a total high saying that it had been a very positive experience. She felt that planning the event for eight children was ideal considering the space restrictions.

Next year, she plans to invite regular visitors to create scenarios for the children to enact and the Learning Officer plans to hold future Taking Over Museums Day events on separate days to facilitate working across two sites.

Staff, including volunteers, were surprised and delighted at the level of the children's interest and thought it was a lovely project. They were 'buzzing' with excitement.

Visitors said that it was fantastic and immensely enjoyable to see so many young people in the Archive.

A press officer took photos for the council's website. The Document of the Month, a regular feature on the website, was a big success with over 350 hits.

Taking Over Museums Day highlighted the importance of historic documents and dedicated staff to the children – the Archive's future customers.

'Now they know what we are, they know what we do, they will tell ten other people and they will tell ten other people and the message will spread through the community.'
Archivist

Dylunwyr – yn dethol a chreu dogfen y mis ar gyfer y wefan

BETH DDIGWYDDODD WEDYN?

Dywedodd y plant eu bod wedi mwynhau mynd i gefn yr Archifau (doedd yr Archifwyr ddim wedi disgwyl hynny) ond yr hyn oedd yn fwyaf cyffrous iddynt oedd cael ateb y ffôn. Gofynnodd yr Archifydd am sylwadau gan y plant a adawodd ar ddiwedd y diwrnod yn gyffro i gyd a dywedodd bod y profiad yn un hynod o bositif. Roedd hi'n teimlo bod cynllunio'r digwyddiad i 8 o blant yn nifer delfrydol o ystyried y cyfyngiad ar le.

Y flwyddyn nesaf, mae hi'n bwriadu gwahodd ymwelwyr rheolaidd i greu senarios i'r plant eu perfformio ac mae'r Swyddog Dysgu'n bwriadu cynnal digwyddiadau Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd y dyfodol ar ddiwrnodau ar wahân er mwyn hwyluso'r gwaith ar draws dau safle.

Roedd y staff, yn cynnwys gwirfoddolwyr, wedi synnu ac wrth eu boddau o weld faint o ddiddordeb oedd gan y plant ac o'r farn bod hwn yn brosiect hyfryd. Roeddent yn gyffro i gyd.

Dywedodd yr ymwelwyr bod y profiad o weld cymaint o bobl ifanc yn yr Archifau'n wych ac yn fodd i fyw.

Roedd swyddog o'r wasg yno'n tynnu lluniau i wefan y Cyngor. Roedd Dogfen y Mis, sy'n eitem reolaidd ar y wefan, yn llwyddiant mawr a chafodd 350 o ymweliadau.

Roedd y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd wedi tynnu sylw'r plant at bwysigrwydd dogfennau hanesyddol a staff ymroddedig – a'r plant yma fydd cwsmeriaid yr Archifau yn y dyfodol.

'Nawr maen nhw'n deall pwy ydym, ac yn deall beth wnawn ni, ac maen nhw'n mynd i sôn amdanom wrth ddeg o bobl eraill a byddent hwythau'n dweud wrth ddeg arall, a bydd y neges yn lledaenu drwy'r gymuned.'
Archifydd